

EGWYDDORION ANSAWDD

ASTUDIAETH ACHOS CELLF ABLE

PROSIECT

Amanda Wells sy'n cyflwyno dull Celf Able o ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd.

AM Y PROSIECT

Sefydliad celfyddydol sy'n cael ei arwain gan yr anabl yn Sir Drefaldwyn yw Celf Able. Cyn Covid, roeddem yn cynnal cyfarfodydd wythnosol mewn pum lleoliad ar draws Sir Drefaldwyn i bobl ddod at ei gilydd a chreu celfyddyd mewn amgylchedd lle'r oedd cefnogaeth gan gymheiriaid. Ers Mawrth 2020 rydym wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol ar Zoom.

SUT WNAETHOCH CHI DDEFNYDDIO'R EGWYDDORION ANSAWDD?

Fe wnaethom ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd i asesu ac ystyried ein hymarfer arferol; ni wnaethom ganolbwyntio ar un prosiect penodol. Ar y dechrau roedd hyn trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb ond yna roedd yn rhaid i ni i gyd ddysgu defnyddio Zoom, a oedd yn newid mawr i'w wneud, yn arbennig gan nad yw cymaint o'n haelodau yn gyfforddus iawn yn defnyddio TG.

PWY OEDD YN CYMRYD RHAN?

Y Trefnydd oedd yn goruchwylio'r broses o ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd, gyda chyfraniad gan ein pedwar Cyfarwyddwr ac aelodau'r grŵp. Fe wnaethom ddefnyddio Offeryn Ystyried ArtWorks Cymru a thrafod pob egwyddor yn ei thro. Fe wnaeth hyn ein helpu i ddod i wybod am deimladau pawb oedd yn cymryd rhan ac amlygu meysydd i'w gwella. Wrth i'n gallu ar Zoom ddatblygu, ac i ni gael arian ar gyfer gweithdai wedi eu harwain gan artistiaid, roeddem yn gallu mesur y gwelliannau yn ein gwasanaeth ar-lein.

BETH WNAETHOCH CHI EI DDYSGU?

Fe wnaethom ddysgu bod yr Egwyddorion Ansawdd yn ddefnyddiol ac yn hawdd eu haddasu i gyd-destunau gwahanol, a bod ein holl aelodau yn gallu eu deall a'u defnyddio yn ein gweithgareddau.

Byddwn yn parhau i'w defnyddio fel offeryn ar gyfer prosiectau penodol a hefyd ar gyfer ein gweithgareddau cyffredinol yn barhaus, fel ffordd o ystyried a chael adborth gan aelodau a'r rhai sy'n cymryd rhan. Roeddem hefyd yn gweld y rhestrau gwirio artist a chomisiynwyr yn ddefnyddiol o ran dangos materion i'w hystyried.



AWGRYMIADAU DA

Ein hawgrym ni yw y gallwch chi ddod o hyd i'ch ffordd eich hun o ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd yn y ffordd fwyaf defnyddiol i'ch prosiect neu sefydliad chi. Maent yn hawdd iawn eu haddasu ac yn rhwydd i'w defnyddio.

RHAGOR O WYBODAETH

<https://celf-able.org/>



ArtWorks
Cymru

